

# PERTHYN

Gorffennaf 2021

299



## Machlud / Goleuni

Ym marwydos y nosi – a'n heddiw

Ar suddo i'r heli,

Yn donnau aur daw i ni

Lanw sy'n llawn goleuni.

Iwan Bryn

## Gair gan y Gweinidog

Yn y flwyddyn 2014 fe ymddangosodd sgwaryn bach o hysbyseb yn adran arwerthiannau'r *Cambrian News*: 'Capel ar werth'. Doedd dim byd yn anarferol yn hynny, heblaw'r ffaith fod 'Carneddau' ym mhentref Trefonen, sir Amwythig, yn un o'r eglwysi oedd dan fy ngofal ar ddechrau fy ngweinidogaeth. Dyma fam eglwys y dystiolaeth Bresbyteriaidd yn yr ardal – ardal sy'n cynnwys siroedd Maldwyn ac Amwythig – a dyma lle bu'r enwog John Davies, Tahiti yn cynnal ysgol. Fe lifodd yr atgofion, am bobl ac oedfaon, sgysiau a chroeso aelwydydd cynnes a gwerthfawrogol. Dim ond un aelod ar ddeg oedd ar lyfrau'r eglwys yn 1992 ac mae'n rhyfeddol meddwl bod y drws wedi parhau'n agored hyd 2014. Diolch am y dystiolaeth a'r gwasanaeth fu'n rhan o fywyd pentref Trefonen am gymaint o flynyddoedd.



Ymhlith yr egin achosion a ymddangosodd yn yr ardal, ceir Seion yn nhref Croesoswallt ac yna ddau achos arall sydd bellach wedi cau: Creiglwyn a Chyrnybwch – eglwysi ag iddynt enwau swynol ac awgrymog. Lleolir eglwys 'Cyrnybwch' ar gyrion yr ardal yna o Groesoswallt sy'n cael ei alw'n 'Gae Rasio' a hynny ar dir hen stad Brogyntyn. Mewn erthygl yn y *Times* yn 2013, ceir y geiriau yma:

'O'r cyfnod Sioraidd i oes Victoria, cynhaliwyd rasys ceffylau poblogaidd yma...Daeth y digwyddiad yn gyfystyr ag yfed, gamblo, dwyn ac ymddygiad anwedus felly stopiodd y bonedd fynychu a daeth y rasys i ben yn 1848.'

Mae'r olion yn dal yno a cherflun o geffyl dau ben yn clymu'r presennol â'r gorffennol. Sefydlwyd achos 'Cyrnybwch' yn 1861 a daeth i ben yng nghanol chwedegau'r ganrif ddiwethaf yn ystod cyfnod

gweinidogaeth y diweddar annwyl Geoffrey Davies. Dyma oedd geiriau Geoffrey yn yr *Oswestry Advertiser* ar y pryd:

‘Petai ond ychydig bach mwy o gefnogaeth yna byddai’r achos wedi parhau a gwasanaethau yn dal i gael eu cynnal ar y Sul.’

Geiriau oesol!

O ran tarddiad yr enw, awgrymir ei fod yn deillio o batrwm y tirlun wrth i fryniau Maldwyn ollwng eu hunain i wastatir sir Amwythig, ond efallai fod yna esboniad arall. Fel yn hanes nifer o achosion Cymreig, mabwysiadwyd yr enw gan yr eglwys yn ymarferol naturiol ond hefyd yn symbolaidd awgrymog gan fod yr enw’n ymddangos yn anuniongyrchol yn yr Ysgrythurau hefyd, a hynny mewn dau gyd-destun penodol. Y mae hanes Abraham yn ymateb i orchymyn Duw yn un o’r hanesion hynny a all greu dryswch ym meddwl rhywun, yn enwedig yn sgil darluniau’r Testament Newydd o Dduw ym mherson Crist. Beth bynnag am hynny, fe gofiwch i Abraham yn y diwedd gydio mewn hwrdd ‘wedi ei ddal gerfydd ei gyrrn mewn drysni’ a gyda hynny agor drws i’r ddealltwriaeth a’r weithred o aberth. Ym mhensaerniaeth y Deml, nodwedd yr allor oedd cerflun o gorn hwrdd ym mhob congl, yn unol â’r canllawiau a geir yn Exodus Pennod 17:2:

‘Gwna gyrrn yn rhan o'r allor yn ei phedair congl, a rho haen o bres drosti.’

Ie, atgof o hanes Abraham ond mae yna rywbeth arall hefyd. Mae yna hanes sy’n ymddangos yn Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd sy’n sôn am ŵr o’r enw Adoneia yn dianc oddi wrth Solomon ac yn ceisio ‘seintwar’ drwy gydio yng nghyrrn yr allor:

‘Mynegwyd i Solomon, “Edrych, y mae Adoneia'n ofni'r Brenin Solomon; ymaflodd yng nghyrrn yr allor ...”.’ Pennod 1:51

Mae’r ddealltwriaeth o ‘seintwar’ wedi bod yn rhan o Gristnogaeth ar hyd y canrifoedd, ac yn galon i’r cyfan y gred bod Duw yn fodolaeth

sy'n llawn gras a chysur. Yn Salm 18:2, mae'r Salmydd yn crynhoi'r ddealltwriaeth yna gyda'r geiriau:

'Yr Arglwydd yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, **a chorn fy iachawdwriaeth**, a'm huchel dŵr.'

Hynny yw, bod ffydd yn gynhaliaeth, yr eglwys yn gartref, a Duw yn llawn cysur a nerth, ac fe fyddai'n wir dweud bod y ddealltwriaeth yna wedi dwysáu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond nid galwad i ymneilltuo yw galwad Duw ar ei bobl i fyw bywydau ar wahân i'r hyn sy'n digwydd o'n hamgylch. Yn hytrach yr alwad i fod yng nghanol y cyfan, yn byw ac yn rhannu'r Newyddion Da mewn ffydd ac mewn ymgysgriad.

Boed i ni'r nerth a'r weledigaeth i wneud hynny.

Mwynhewch y tywydd braf!



## Cymdeithas y Morfa

Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus o dan arweinyddiaeth Gareth Owen ar Zoom, byddwn yn parhau i gynnal y cyfarfodydd yn y dull hwn am y flwyddyn sydd i ddod gan ddechrau ym mis Medi. Diolch i'r swyddogion ac i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac i'r rhai a gyfrannodd mewn amryfal ffyrdd yn ystod y cyfarfodydd.

Dymunwn yn dda i'r swyddogion newydd, sef:

Cadeirydd: Gwerfyl Pierce Jones

Ysgrifennydd: Menai Lloyd Williams

Trysorydd: Ifor Davies

## YR YSGOL SUL

**Plant ac ieuenctid**

***Dyddiad i'w gofio***

**Bore Sul, 4 Gorffennaf, am 11 o'r gloch**

**Cyfarfod ym maes parcio Morlan a phicnic ar draeth y de i ddilyn (tan 1.30).**

***(Rhoir ystyriaeth i reolau diogelwch a chadw pellter cymdeithasol.)***

**Anfonir y manylion yn nes at y dyddiad ac aildrefnir ar gyfer 11 Gorffennaf os bydd y tywydd yn anffafriol.**

### **DIOLCH**

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i waith yr Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn. Diolch arbennig i'r grŵp Seintiau'r Gymuned o dan arweiniad Andy Hughes sydd wedi darparu pecynnau gwaith wythnosol ar gyfer eu hanfon at y plant ers dechrau'r Cyfnod Clo y llynedd.

Dymuniadau gorau i bawb dros fisoedd yr haf.

Mwynhewch y gwyliau!

# Newyddion

## Anfon cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Anne Edwards sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Hefyd at Celia Jones a Geraint Lewis Jones yn Ysbyty Tregaron ac at Iola Jones.

Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

## Llongyfarchiadau . . .

i'r rhai fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod T yr Urdd

- ❖ Elliw a Lleuwen Gruffudd a enillodd y wobr gyntaf am greu ffilm fideo fer.
- ❖ Gwennan Macdonald a gafodd y wobr gyntaf am greu cymeriad comic.
- ❖ Eira Macdonald a gafodd yr ail wobr am goginio cacen ddathlu a'i haddurno.
- ❖ Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai oedd yn rhan o grŵp dawnsio cyfoes yr Ysgol Gymraeg a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth honno.

Llongyfarchiadau i Lowri Mair Jones – cyfieithydd buddugol yng Nghystadleuaeth Gyfieithu i ddisgyblion blwyddyn 10–13 a drefnwyd gan Brifysgol Aberystwyth.

## Dymuno'n dda


Dymunwn yn dda i Mary Evans, Maes Cambria a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar 22 Gorffennaf.

## Ebeneser, Penparcau

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at aelodau a chyfeillion Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

## ***D J JAMES: Ei Fywyd a'i Ddylanwad***, Richard Morgan

Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, *D J James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad*, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl. Gŵr a'i wreiddiau'n ddwfn yng Ngheredigion a Chymru oedd David James, ond bu'n byw y rhan fwyaf o'i oes y tu allan i'w wlad enedigol, gan wneud ei ffortiwn mewn gwahanol fusnesau yn ardal Llundain a thu hwnt. Ond yr oedd yn benderfynol o adael ei gyfoeth i Gymry'r dyfodol, ac mae'r gronfa'n parhau i ddsbarthu grantiau i eglwysi a chapeli Cymru, yn ogystal â myfyrwyr uwchraddedig ac eisteddfodau.



Awdur y gyfrol hon yw Richard Morgan, a fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, mae wedi bod yn ddiwyd iawn yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes. Bydd y gyfrol ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y ddwy gyfrol (pris £18 yr un, yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac **erbyn 16 Gorffennaf 2021 fan bellaf**. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir,

Gwenan Creunant

Ysgrifennydd Gweithredol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Ffôn: 01970 612806

E-bost: [post@jamespantyfedwen.cymru](mailto:post@jamespantyfedwen.cymru)

## Cyfrol newydd o gerddi

Un o'r trysorau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw'r gyfrol, *Am yn Ail*, casgliad o gerddi tad a mab: y Parchedig John Gwilym Jones a Tudur Dylan Jones. Mae'r gerdd a gyhoeddir isod yn arbennig o berthnasol inni fel eglwysi yn y cyfnod dyrys hwn. Mae'r neges yn un gref a phellgyrhaeddol.

### Pentecost Iesu

Yn Jerwsalem ein heddiw ni  
clywir côr o ieithoedd:  
clywn dafodiaith y di-ffydd  
a geiriau esmwyth y glastwryn glwth;  
parabl y di-dduw a'r di-ddim,  
a lleferydd yr amheuw'r a'r sinig a'r penboeth gwyllt.

Ac yn y carbwl llafar hwn  
mae clustiau plant ein strydoedd yn drysu,  
a'u llygaid ar y lluniau yn eu sgrin fach gyfrin.

Gwaeth fyth yw hi ym Mhentecost ein crefyddau.

Bydd gan y Mwslim ddirgel fantra yn ei blyg,  
a'r Bwdhydd ei fyfyr, a'r Hindw ei berlewyr.  
Ninnau yn ein Salem a'n Soar,  
yn Annibynwyr chwyrn,  
y mae gennym ninnau ein cystrawen dwt;  
ym Methel y pentre nesaf  
clywn acenion pêr eu Presbyteriaeth;  
a chan deyrngarwyr capel Ainon  
eu deddfol ddefodol fedydd.



A bydd plant ein strydoedd  
yn drysu fwy fyth ymhlith y lleisiau,  
a suddo'n ddyfnach i'r lluniau bach ar eu sgrin gyfrin.

**Ond yna ryw ddydd daw'r Ysbryd  
i ffrwydro â'i dân drwy'r pedlera a'r ddogma ddall,  
gan roi inni ei iaith newydd.**

**Iaith y gwneud fydd hon, nid iaith y dweud;  
iaith y ffydd, nid iaith y duwiol gredoau.**


**Enwau a fydd yn drugaredd, ansoddeiriau maddeuant,  
idiomau gras a chymwynas,  
a berfau'n gyhyrog gan gariad.**

**Hon yw iaith yr actau tosturiol y bydd pawb yn ei deall,  
Parthiaid a Mediaid ac Elamitiaid y cychod brau  
a ffoaduriaid y pebyll pell.**

**Canys iaith Iesu yw hon, a daw'n plant i'w deall,  
petaem ni ond yn dechrau ei siarad hi.**

*Am yn Ail*, John Gwilym Jones, Tudur Dylan Jones  
Cyhoeddiadau Barddas, Pris £9.95,  
clawr caled

*Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r  
Parchedig John Gwilym Jones am roi  
caniatâd inni gynnwys y gerdd yn ei  
chlyfanrwydd. Goln.*



## Mae newid yn *change* ...

Dwi'n lecio newid. Mae'n braf bod yn ôl, ond mae'n rhaid dweud, dwi'n lecio newid.

Dwi'n lecio gwneud pethau gwahanol, neu wneud yr un pethau mewn ffordd wahanol. Dwi'n lecio gweld pethau'n symud. I mi mae'n werth mentro symud cam nag aros yn fy unfan, hyd yn oed os oes peryg fod hwnnw'n gam i'r cyfeiriad anghywir. Mae wastad modd symud yn ôl yn does?

Mae symud yn cymryd ymdrech ond yn rhoi egni i rywun hefyd. Dyna eironi pob ymarfer corff, mae ymdrech fawr yn cynyddu lefelau egni rhywun yn ogystal.

Mae hynny'n fy ngwneud yn greadur anniddig a diamynedd pan fo pethau'n ddisymud.

Dyna pam, os ydw i'n onest, fod yna elfen o gyffro yn perthyn i'r clo cyntaf. Tra'n cydnabod difrifoldeb yr argyfwng yr oedden ni'n ei wynebu yng ngwanwyn 2020, ac er gwaethaf yr oriau gwaith gwirion, yr addysgu o adref a'r dysgu byw ar bennau'n gilydd, mewn rhyw ffordd ryfedd, roeddwn i'n mwynhau. Roedd yna newydd-deb ac adrenalin yn perthyn i'r sefyllfa. Roedd hi'n braf gwthio'r ffiniau a dysgu pethau newydd.

Roedd o'n destun balchder ein bod ni fel eglwys, yn aelodau o bob oed, wedi llwyddo i ddygymod â'r dechnoleg newydd, wedi llwyddo i groesawu cyfeillion o Fôn i Fynwy ac o bedwar ban byd i'n plith. Roedd o'n wahanol, roedd o'n hwyl. Roedd pethau'n symud.

Ond eto dwi'n edrych ymlaen at fynd yn ôl. Mynd yn ôl i gwmni pobl. I brofi'r cemistri hwnnw, y fferemonau hynny nad ydyn nhw'n treiddio trwy'r sgrin. Edrych ymlaen at weld ffrindiau yn y cnawd, yn enwedig y ffrindiau roeddwn i'n eu gweld yn achlysurol fel aelodau o deulu'r


eglwys. Mae rhywun wedi trefnu erbyn hyn i weld ei deulu a'i ffrindiau agosaf, ond mae hiraeth rhyfedd am y bobl roedd rhywun ond yn eu gweld o dro i dro. Dwi hyd yn oed yn edrych ymlaen at weld y bobl hynny dwi'n llai hoff ohonyn nhw ... gobeithio fod pobl yn teimlo'r un peth amdana i!

Dwi'n edrych ymlaen at sêr galed ac ogla polish.

Efallai ein bod ni wedi bod dan glo mor hir nes bod mynd yn ôl yn newydd.

Ond fyddwn ni ddim yn mynd yn ôl i'r union fan. Bydd y drws cefn ar agor a'r sgrin tu blaen yn llawn o wynebaw newydd a chyfarwydd.

Fe fûm i'n ddigon ffodus i dreulio ychydig o amser yn yr Amazon. O blith y myrdd o bethau egsotic a gyflwynodd y tywysydd i ni oedd coeden oedd yn cerdded (*Socratea exorrhiza*). Llwyddai hon, meddai, yn araf ond yn gyson, i symud drwy daflu ei gwreiddiau i gyfeiriad y goleuni. Ysywaeth, myth oedd y stori honno, ond fel pob myth mae elfen o wirionedd sy'n werth cydio ynddo.



Wrth fynd yn ôl, fwy na heb i'r un lle, onid y wers bwysicaf i ni i gyd ydy i werthfawrogi ein gwreiddiau tra'n dal ati i symud, yn araf a chyson, i gyfeiriad y goleuni. Ac weithiau, efallai, fe gawn ni garlamu am sbel, i fodloni pobl ddiamynedd fel fi.

Rocet Arwel Jones

## Cymorth Cristnogol (Wythnos 10–16 Mai 2021)

Yr argyfwng hinsawdd yw un o'r anghyfiawnderau mwyaf sy'n ein hwynebu. Gyda'n gilydd rydym yn atal yr argyfwng hinsawdd hwn.



Dathlwyd Wythnos Cymorth Cristnogol ar 10–16 Mai, ac yn **Perthyn** mis Mai gwahoddwyd cyfraniadau at Gymorth Cristnogol. Mae'n hyfryd cofnodi inni dderbyn cyfanswm o **£1,385**. Diolch i bawb ohonoch am eich haelioni.



### **Cantigl yr Haul gan Sant Ffransis o Asisi**

Derbyn ganmoliaeth, fy Arglwydd,  
am dy holl greaduriaid,  
yn gyntaf am ein brawd yr haul,  
sy'n gwneud y dydd yn loyw a llachar.  
Mae'n hyfryd a disglair,  
yn ysblennydd  
yn ei ddelw ohonot,  
y goruchaf un.  
Derbyn ganmoliaeth, fy Arglwydd,  
am ein chwaer y lleuad a'r sêr.  
Gosodaist hwy yn yr awyr,  
yn llachar a golau.  
AMEN

Yn y gantigl hon, mae Sant Ffransis yn canmol Duw am rai o ryfeddodau'r byd naturiol. Credai Sant Ffransis fod popeth yn y byd naturiol yn werthfawr – oherwydd hyn mae'n cyfeirio at y gwahanol rannau o natur fel chworydd a brodyr. Seiliodd y gân hon ar un o hen ganeuon y Beibl – Salm 148.

*Oddi ar wefan Cymorth Cristnogol*

# Cylch Gweddi a Choffi bore Mawrth am 11.00



Mae'r grŵp Gweddi a Choffi wedi cyfarfod yn wythnosol ar foreau Mawrth yn ystod y flwyddyn. Er mai yn rhithiol oedd y cyfarfodydd, rydym wedi mwynhau cwmni ein gilydd ac wedi derbyn bendith o'r myfyrdodau, y gweddiau a'r rhannu trwy gyfrwng profiadau, emynau, barddoniaeth a darluniau.

Fel rhan o thema'r flwyddyn '*Helaetha derfynau dy deyrnas*' gwahoddwyd tri i ymuno â ni yn ddiweddar ar Zoom i sôn am wahanol agweddau o waith y deyrnas.

Yn un o'r cyfarfodydd daeth Hywel Lloyd atom i sôn am waith y mudiad Cristnogol 'Newyddion Da i Bawb' a adwaenid fel y Gideonaid yn y gorffennol. Mae Hywel yn aelod o'r grŵp lleol sydd yn rhan o'r mudiad byd-eang ac yn gadeirydd ar hyn o bryd. Eu nod yw sicrhau fod Beiblau yn cael eu dosbarthu i safleoedd gwaith, adeiladau cyhoeddus, gwestai a pha le bynnag y bydd y cyhoedd yn gallu derbyn arweiniad, cyngor doeth a chymorth ar adeg anodd yn eu bywydau. Rhennir y Cyfieithiad Newydd Rhyngwladol mewn nifer fawr o ieithoedd a'r Testament Newydd yn Gymraeg.

Cafwyd sesiwn arall yng nghwmni Llinos Morris sydd yn weithiwr plant a ieuencid yn Eglwys Noddfa Caernarfon. Yn ogystal â'i hyfforddiant mewn cenhadaeth, mae wedi dilyn cwrs Cwnselydd Prifysgol Bangor. Mae ganddi gyfrifoldeb dros gynnig gofal bugeiliol a chefnogaeth i Weinidogion Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac mae hi hefyd wedi ei phenodi'n Gaplan i'r Heddlu yn ardal Caernarfon a Bangor. Mewn cyfnod o bwysau gwaith lle mae amgylchiadau'n anodd eglurodd mai ei swyddogaeth yw cynnig clust i wrando mewn awyrgylch dawel ddiogel a chynnig cefnogaeth i'r gweithwyr a'u teuluoedd.

Yn dilyn yr un thema o ofal bugeiliol, gwahoddwyd Catrin Griffiths atom. Mae Catrin yn gwirfoddoli gyda'r mudiad Tir Dewi sydd yn rhoi cymorth i ffermwyr a gweithwyr yn y byd amaeth. Sefydlwyd Tir Dewi gan y Canon Eileen Davies fel rhan o waith Esgobaeth Tyddewi ac erbyn hyn mae'r gwaith wedi ehangu i ardaloedd eraill. Gyda'r pwysau aruthrol ar amaethwyr o ran holl ofynion amaethu, y gwaith cofnodi, y newidiadau enfawr yn y diwydiant a'r pwysau o wahanol gyfeiriadau, mae gwaith Tir Dewi a mudiadau eraill tebyg yn hanfodol. Maent yn rhoi clust i wrando ac yn cynnig cyngor a chymorth ymarferol lle bo angen.

Diolch i Eifion am drefnu rhaglen sydd yn ein herio ac yn ein hatgoffa fod ein gwaith yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau.



Ar gyfer y cyfarfodydd uchod – cysyllter ag Eifion ar [eifionroberts095@btinternet.com](mailto:eifionroberts095@btinternet.com) i gael manylion ymuno.

---

Golygyddion y mis hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Awst PERTHYN at Gwerfyl Pierce Jones ([gwerfylvpj@gmail.com](mailto:gwerfylvpj@gmail.com)) neu Menai Lloyd Williams ([menailloyd@googlemail.com](mailto:menailloyd@googlemail.com)) erbyn dydd Gwener, 23 Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

---

# Perthyn i'n Gilydd

Heddi, Arglwydd,  
bydd pobl yn cael eu geni a bydd pobl yn marw;  
bydd pobl yn priodi, yn gadael cartref  
ac yn sefydlu eu haelwydydd eu hunain;  
bydd pobl yn gwledda, yn newynu,  
yn gwneud arian, yn dwyn arian,  
yn rhannu arian ag eraill;  
bydd pobl yn llwyddo ac yn methu;  
bydd rhai yn lladd a rhai yn caru a thosturio.



Dyma dy deulu di, Arglwydd,  
ac y mae'n deulu mawr  
a thu hwnt i'n dirnadaeth ni,  
ac eto fe wyddom ein bod yn rhan ohono.

Tyn ni'n agosach at ein gilydd fel plant i ti;  
dysg ni i ofalu am ein gilydd,  
a gofidio am ein gilydd,  
nid mewn gweddi achlysurol,  
ond yn y ffordd y gwariwn ein harian,  
a threulio ein hamser,  
a bwrw ein pleidlais a magu'n plant.

Adnewyddda'r teimlad yng nghalon pawb ohonom  
ein bod yn perthyn i'n gilydd,  
a boed i'r syniad o deulu fod yn real  
yn ein meddwl ac yn ein bywyd,  
fel y gallwn ofyn hyn yn enw'r Iesu,  
a'n dysgodd ni i'th alw di yn 'Dad'.

AMEN

Meurwyn Williams, 1940–98  
Allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

## SULIAU GORFFENNAF

Ar ôl misoedd o addoli ar Zoom, rydym wedi dychwelyd i'r capel. Y patrwm trwy fis Gorffennaf fydd oedfa yn y capel pan fydd Eifion yn gwasanaethu a'r oedfaon eraill ar Zoom. O ran yr oedfaon yn y capel byddwn yn eu darlledu'n fyw ar Zoom ac felly os nad ydych yn teimlo'n hyderus i ddychwelyd ar hyn o bryd, gellwch barhau i ymuno o'ch cartrefi. Dyma gyfnod newydd a menter newydd. Gweddïwn am fendith gyfoethog Duw ar y cyfan.

4 Gorffennaf – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

11 Gorffennaf – Evan Morgan – Zoom yn unig

18 Gorffennaf – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

25 Gorffennaf – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!

[www.capelymorfa.cymru](http://www.capelymorfa.cymru)

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa  
@capelymorfa, a chyfri Facebook